
**DATGANIAD I'R WASG
GAN
AROLYGIAETH GOFAL CYMRU**

TEITL: Arolygiad gwerthuso perfformiad o wasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Powys

DYDDIAD DAN EMBARGO 29 Hydref 2020 12:00

Diben yr arolygiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) rhwng 14 ac 18 Medi, oedd ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Powys yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Yn ystod yr arolygiad hwn, ystyriwyd sut y mae gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Powys yn sicrhau diogelwch gwasanaethau, diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau, a diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio.

Mae'r llythyr a anfonwyd at yr awdurdod lleol yn tynnu sylw at y prif ganfyddiadau a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Trosolwg

Pobl – llais a rheolaeth: Nododd AGC y gall pobl ym Mhowys fod yn siŵr bod yr awdurdod lleol yn ymrwymedig i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a'u bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae angen gwneud gwaith i gefnogi gwelliant parhaus a rhoi arferion da ar waith ym mhob maes gwasanaeth.

Atal: Nododd yr arolygiaeth fod cyfathrebu rhwng swyddogion yr awdurdod lleol ac aelodau'r cyngor wedi gwella, gyda ffocws ar y cyd ar atal, a fydd yn sicrhau y bydd cymunedau a gwasanaethu yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Llesiant: Nododd yr arolygiaeth fod uwch-reolwyr ac aelodau arweiniol wedi cyflwyno diwylliant newydd o ddisgwyliadau a safonau ym maes gofal cymdeithasol ym Mhowys. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau sy'n gysylltiedig â hyn ac mae'n gweithio'n galed gyda phob rhanddeiliad i gefnogi diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau, a diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio.

Partneriaethau, integreiddio a chydgyhyrchu: Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a myfyrio ar bwysigrwydd arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol wrth sicrhau ei fod yn llwyddo i gyflawni ei gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol.

Y camau nesaf

Mae AGC wedi tynnu sylw'r awdurdod lleol at ganfyddiadau a meysydd i'w gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch gwerthuso perfformiad parhaus gyda Chyngor Sir Powys.

DIWEDD

Nodiadau i'r golygydd

Mae'r canfyddiadau allweddol yn gyson ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd wedi bod mewn grym ers bron tair blynedd.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd ati i hyrwyddo llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw:

- Cefnogi pobl ag anghenion gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu **llesiant**.
- **Pobl** sydd wrth wraidd y system newydd drwy roi cyfle cyfartal iddynt ddweud pa gymorth y maent yn ei gael.
- **Partneriaethau a chydweithredu** sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Bydd gwasanaethau'n hybu'r broses o **atal** anghenion rhag gwaethygu a rhoi'r help cywir ar yr adeg gywir.

Ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â: Natalie Hughes 0300 062 8240 / natalie.hughes@gov.wales